DYFODOL CYMRU

Cymru Yfory
Tomorrow's Wales

Mae Cymru Yfory yn gryf o blaid bwriad Llywodraeth 'Cymru'n Un' i roi pwerau deddfu go iawn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fe ddigwyddai hynny drwy gael pwerau deddfu cynradd o dan Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (DLlC 06), yn dilyn refferendwm.

Mae'r trefniadau presennol, o dan **Ran 3 DLlC 06,** yn caniatau i'r Cynulliad basio deddfau o fewn ugain maes polisi, ond dim ond os yw Senedd y DU wedi rhoi'r pŵer iddo wneud hynny yn gyntaf. Mae hefyd yn golygu y gall cynigion polisi sydd wedi eu cefnogi gan y Cynulliad gael eu blocio gan ASau yn San Steffan neu gan Whitehall, ac mae hyn eisioes wedi digwydd.

Byddai dod â **Rhan 4 DLlC 06** i rym yn datrys y problemau hyn drwy roi i'r Cynulliad y gallu i basio deddfau yn y meysydd polisi sydd wedi'u datganoli iddo heb orfod cael caniatad San Steffan gyntaf. Mae'r meysydd polisi hyn yn cynnwys addysg a hyffroddiant, iechyd, lles cymdeithasol, tai, cynllunio, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

YN AWR – RHAN 3	Y DYFODOL – RHAN 4
• clogyrnaidd ac aneffeithlon; • prosesau sydd yn llyncu amser; • gwastraffu amser ac adnoddau pawb; • anodd i bobl ddeall; • mae pwerau'r Cynulliad yn anghyson ac yn newid yn aml.	• mwy effeithlon; • cliriach; • mwy democrataidd; • mwy atebol; • mwy sefydlog.

Byddai gweithredu **Rhan 4** yn golygu fod modd i bawb wedyn ganolbwyntio ar ddatblygu polisïau i wella bywyd yng Nghymru yn hytrach na mynd drwy'r broses drafferthus a gwastraffus o ddatganoli pwerau damaid wrth damaid. Gallai Cymru basio ei deddfau ei hun heb ofyn am y pwerau angenrheidiol o San Steffan – yn yr un modd ag y gall yr Alban a Gogledd Iwerddon ei wneud yn barod.

Does dim un ddadl resymol dros barhau gyda'r trefniadau diffygiol ddifrifol sydd gennym ar hyn o bryd. Gadewch i ni roi trefn ar lywodraethu Cymru a gwneud pethau'n iawn.

Chwalu'r Chwedlau

Gan nad oes dadl rhesymol dros aros gyda'r trefniadau presennol, mae tipyn o gamwybodaeth yn cael ei ledaenu gan y rhai sy'n gwrthwynebu symud Cymru ymlaen. Cofiwch y **ffeithiau** yma:

NID YW Rhan 4 DLlC 06 yn cynnwys:
- **rhagor o wleidyddion etholedig;**
- **rhoi'r hawl i godi trethi i'r Cynulliad.**

BYDDAI yn golygu y **cedwir Cymru yn gadarn o fewn fframwaith y DU – ac yn rhoi iddi setliad debygach i'r sydd gan yr Alban yn barod.**

Ymunwch â'r Ddadl

Cafodd Cymru Yfory ei sefydlu yn 2004 i bwyso am hawliau deddfu cynradd i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n fudiad amhleidiol, gydag aelodau o wahanol agweddau ar fywyd Cymru, a'i gadeirydd yw Archesgob Cymru, Barry Morgan.

Os y cefnogwch syniadau Cymru Yfory, gallwch wneud y canlynol:

1 Gwneud eich cefnogaeth o bwerau deddfu yn hysbys i Gonfensiwn Cymru Gyfan, sydd yn cysidro'r mater. Gallwch wneud hynny drwy ymweld â'r wefan – **www.confensiwncymrugyfan.org** neu ysgrifennu at Confensiwn Cymru Gyfan, Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA. Mae Confensiwn Cymru Gyfan yn cynnal digwyddiadau cyhoeddus led-led Cymru. Gallwch fynegi eich barn yn un o'r digwyddiadau hyn.

2 Ymweld â gwefan Cymru Yfory – **www.cymru-yfory.co.uk** i ddarllen ein tystiolaeth i'r Confensiwn ac i gael gwybodaeth ynghylch pam fod Cymru angen pwerau deddfu a syniadau yngl n â sut y gallwch helpu i'w sicrhau.

3 Ymuno â'r drafodaeth ar flog Cymru Yfory – **www.cymru-yfory.co.uk/blog**